

Pwyllgor Rheoli Datblygu

15 Gorffennaf 2026

Yn bresennol (yn bersonol)

Cynghorydd Dr SL Hancock (Cadeirydd)

Cynghorydd D Clements, Cynghorydd C George, Ms H Gwenllian, Dr M Havard, Cynghorydd H Murphy, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd C Williams a'r Cynghorydd M Williams.

Yn bresennol (o hirbell)

Cynghorydd M Bowen, Miss F Day, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd S Skyrme-Blackhall.

Ymunodd Mr GA Jones yn rhithiol cyn ystyried adroddiad y Cyfreithiwr (Cofnod 4) ac ymunodd y Cynghorydd A Tinley yn ystod yr ystyriaeth o gais NP/23/0435/FUL (Cofnod 6(a))

Swyddogion oedd yn bresennol

Ms K Attrill, (Rheolwr Rheoli Datblygu), Mr C Felgate (Cyfreithiwr), Mr J Houser (Swyddog Cynllunio), Mr M Kent (Swyddog Monitro), Ms Toni Macey (Prifffyrdd CSP), Mrs S Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu), Mr R Scourfield (Swyddog Cadwraeth Adeiladau), Mrs C Llewellyn (Cofnodion)

[Parc Llanion, Doc Penfro a Rhithiol 10.00am – 11.15am;
11.20am – 1.25pm]

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Mr J Hogg a'r Cynghorydd B Price.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater (ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

Cais a Chyferinod	Aelod(au)/Swyddog(ion)	Gweithred
Cofnod 6(b) isod NP/26/0145/FUL - 1 sawna bach pren gwresogi â choed, a chaban llogi cysylltiedig – Harbwr Saundersfoot, Llanusyllt	Cynghorydd C Williams	Gadael y cyfarfod tra roedd y cais o dan drafodaeth



3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2026 a 24 Mehefin 2026 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Hancock, wedi'i eilio gan Dr Havard, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2026.

O ran cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026 nodwyd y dylai dyddiad y cyfarfod yn y cofnodion Saesneg fod yn dweud 2026 yn hytrach na 2024.

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Hancock, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Clements, **penderfynwyd** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2026 gan gynnwys y diwygiad uchod.

Nodwyd.

4. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, gyda phwyslais penodol ar amcanion a dyletswydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn mynd yn ei flaen i amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, ac ychwanegodd y Cyfreithiwr bod angen rhoi ystyriaeth hefyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021 yn ogystal â'i Gynllun Datblygu Lleol 2 ei hun. Roedd yr Adroddiad hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd hefyd i gyflawni datblygiad cynaliadwy, ystyriaethau ecolegol oedd yn cynnwys swyddogaeth Deddf Amgylchedd Cymru 2016, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y Pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl. Yn olaf, ychwanegodd y Cyfreithiwr nad oedd yr adroddiad yn dweud bod penderfyniadau yn agored i gael eu scrwtineiddio gan y llysoedd ac y gallai hynny arwain at adolygiad barnwrol a'i bod felly yn bwysig eu bod yn gyfreithiol seiliedig.

Nodwyd.

5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, wedi'i ddiwygio 16 Mehefin 2021, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud oni bai eu bod wedi siarad



ar yr un cais cynt pan roddir tri munud iddyn nhw i gyflwyno gwybodaeth o'r newydd. *(mae'r partïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):*

Rhif cyfeirnod	Cynnig	Siaradwr
NP//23/0435/FUL Cofnod 6(a) cyfeir	Newid defnydd tir i ffurfio 11 o leiniau carafanau teithiol a lleoli 3 bugeildy. (Yn rhannol ôl-weithredol i gynnwys cadw'r sied storio bresennol a'r adeilad cyfleusterau) – Tir i'r dwyrain o Fferm Neuadd Talbenni, Talbenni	Alison Gibby – Gwrthwynebydd Zac Addison – Asiant
NP/26/0145/FUL Cofnod 6(b) cyfeir	1 sawna bach pren gwresogi â choed, a chaban llogi cysylltiedig – Harbwr Saundersfoot, Llanusyllt	Kerry Evans – Ymgeisydd Phil Baker – Cefnogwr Cyng Chris Williams (Cynghorydd Sir)

6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol *(nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol):*

- (a) Cyfeirnod: NP/23/0435/FUL
Cynnig: Newid defnydd tir i ffurfio 11 o leiniau carafanau teithiol a lleoli 3 bugeildy. (Yn rhannol ôl-weithredol i gynnwys cadw'r sied storio bresennol a'r adeilad cyfleusterau)
Lleoliad: Tir i'r dwyrain o Fferm Neuadd Talbenni, Talbenni, Hwlfordd

Adroddwyd bod y cais hwn yn chwennych caniatâd cynllunio i newid defnydd o hen safle iard sgrap, a oedd wedi ei hail-adfer ac yn fwy diweddar wedi'i defnyddio fel gweryll tymhorol, i ddarparu safle gweryll a chlampoo ffurfiol yn cynnwys 11 o leiniau carafanau teithiol gyda phwyntiau gwefru trydan, a llecyn gweryll penodol ar gyfer hyd at 20 pabell, a thri bugeildy. Roedd y cais hefyd yn chwennych caniatâd ôl-weithredol i gadw'r sied storio bresennol ac adeilad cyfleusterau.



Wrth i'r swyddogion ystyried y cais derbyniwyd swm sylweddol o wybodaeth ychwanegol mewn ymateb i sylwadau'r sawl yr ymgynghorwyd â nhw. Yn benodol, yr Awdurdod Prifffyrdd Lleol oedd wedi gwrthwynebu'r cais yn wreiddiol ar sail diogelwch prifffyrdd gan fwriadu cyflwyno gwybodaeth dechnegol bellach. O ganlyniad cyflwynwyd arolwg cyflymder trafndiaeth saith niwrnod, Gwerthusiad Mynediad a lluniadau gwelededd wedi'u diwygio, ac o ganlyniad fe ddiddymodd yr Awdurdod Prifffyrdd eu gwrthwynebiadau a chefnogi'r cais gydag amodau cynllunio.

Roedd y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am fod y cynnig yn ymwneud â datblygiad twristiaeth newydd yng nghefn gwlad ac am fod Cyngor Cymuned y Glannau wedi gwrthwynebu ar sail diogelwch prifffyrdd.

Byddai'r safle yn gweithredu fel datblygiad twristiaeth tymhorol o faint canolig rhwng 31 Mawrth a 30 Medi bob blwyddyn. Roedd yr ymgeisydd wedi cadarnhau y byddai'r tri bugeildy yn cael eu symud o'r safle y tu hwnt i'r tymor gweithredu a'u cadw oddi fewn i'r adeilad storio presennol sydd ar y safle.

Roedd y swyddogion o'r farn bod natur y safle fel roedd wedi'i ddatblygu cynt, ei dirwedd gaeedig, ei weithredu tymhorol a'r modd roedd materion technegol yn ymwneud â diogelwch prifffyrdd, ecoleg a draenio, yn dangos cydymffurfiaid polisi cyflawn, yn unol â gofynion CDLI2, ac roedd y cynnig felly yn cael ei argymhell i'w gymeradwyo gydag amodau.

Nodwyd yn y cyfarfod bod y cais wedi'i ddiwygio droeon ers ei gyflwyno gan gynnwys un fersiwn gyda llinell goch yn tanlinellu maint y safle; roedd hwn wedi'i ddangos yn anghywir ym mhapurau'r Pwyllgor ac roedd map yn gosod yr amlinelliaid cywir wedi'i gyflwyno. Nodwyd bod un bugeildy hefyd yn ôl-weithredol. Ers ysgrifennu'r adroddiad roedd diweddariad i'r Asesiad Ecolegol Rhagarweiniol (AERh) wedi'i dderbyn, ac roedd yr Ecolegydd yn fodlon â'i gynnwys, ar yr amod y cynhwysid dau amod ychwanegol i osod bocsys ystlumod ac ail-blannu.

Adroddodd y swyddog, yn dilyn cyflwyno gwybodaeth prifffyrdd ychwanegol a sylwadau pellach gan wrthwynebwyr, bod yr Awdurdod Prifffyrdd wedi trefnu ymweliad safle ac wedi dod i'r casgliad bod gwelededd yn ddigonol, ar yr amod y byddai'r ymyl yn cael ei gynnal a'i gadw yn briodol. Cynghorodd y Swyddog Prifffyrdd, Toni Macey, y Pwyllgor, bod crynswth trafndiaeth ar y briffordd yn isel ac mae'r cyfartaledd cyflymdra ddwy ffordd oedd 32.7 m.y.a., ac felly roedd ymlediad gwelededd o 50m yn ddigonol, ac y gellid sicrhau hyn trwy ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd dorri'r borfa ar hyd yr ymyl; byddai methiant i wneud hynny yn fater gorfodaeth. Ac am fod crynswth y teithio



yn isel prin y byddai yna achlysuron o ddau gerbyd yn mynd i mewn ac allan yr un pryd. Mewn ymateb i gwestiwn ychwanegodd nad oedd defnydd o'r safle ar gyfer gweryslla tymhorol (28 niwrnod y flwyddyn) wedi arwain at bryderon diogelwch ffyrdd, a doedd yna'r un ddamwain wedi'i chofnodi ar y darn hwnnw o'r ffordd yn ystod y 26 mlynedd aeth heibio.

O ganlyniad argymhellwyd y dylid diwygio Amod 2 i gyfeirio at ddogfennaeth ychwanegol y priffyrdd, ymlediad gwelededd oedd wedi'i osod allan yn amod 10 (wedi'i rifo yn 7 yn yr adroddiad) ei ddiwygio, ac Amod 9 (ei rifo yn 6) ei ddiddymu am nad oedd ei angen mwyach am fod lled y fynedfa yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Mewn ymateb i gwestiynau eraill gan yr Aelodau, cadarnhaodd y swyddog bod y ffordd fynediad a rannwyd yn eiddo i'r fferm drws nesaf, ac o sgwrsio gyda'r ymgeisydd roedd hi wedi arddeall mai'r bwriad oedd gosod cartrefi modur yn unig, yn hytrach na charafanau er, fodd bynnag, byddai'n bosib egluro hyn pan fyddai'r asiant yn siarad yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Y cyntaf o ddau siaradwr oedd Alison Gibby, a oedd yn gwrthwynebu'r cais. Cychwynnodd trwy fynegi ei syndod a'i siom o weld yr amodau diwygiedig. Roedd o'r farn fod angen mynediad wedi'i ledu gan esbonio iddi gadw llygad ar y fynedfa trwy gamera TCC dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn aml wedi gweld cerbydau yn ciwio ar ddwy ochr y glwyd. Nododd hefyd ei bod wedi anfon ffotograffau i'r Awdurdod (ac roedd wedi cael arddeall eu bod wedi'u huwchlwytho i'r wefan) o'r gwelededd o'i cherbyd ei hun, gan nodi na fyddai'n bosib cynnal yr ymlediad gwelededd trwy dorri'r borfa am ei bod wedi gofyn i syrfeiwyr edrych ar y clawdd ac roedd wedi'i godi o flociau concrid gyda chlawdd ar ei ben. Roedd hi hefyd yn anghytuno gyda'r Swyddog Priffyrdd o ran gwelededd wrth edrych i'r dde o'r fynedfa. Roedd hi wedi arddeall o ddarllen yr adroddiad bod angen i welededd i'r cyfeiriad hwnnw fod yn 215m ac nid oedd hyn yn bosib. Nododd Ms Gibby bod y Cyngor Cymuned yn cytuno â hi.

Aeth Ms Gibby yn ei blaen i nodi bod y gwerysll wedi'i hysbysebu o fod yng nghanol dau lyn bywyd gwyllt, a chredai y byddai ail gae yn cael ei ddefnyddio yn ychwanegol i'r un y gofynnid am ganiatâd ar ei gyfer, a bod y gostyngiad ym maint safle'r cais wedi'i wneud i osgoi'r baich ychwanegol o gyflwyno safle mwy o faint. Terfynodd trwy ddweud nad oedd yn credu y gellid sicrhau cae wedi'i ddraenio trwy ddefnyddio tanc septig am y byddai'r llecyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio, ac yn ôl ei dealltwriaeth hi doedd draenio o dan lecyn parcio ddim yn cael ei ganiatáu.

Gofynnodd y Cadeirydd yn gyntaf i'r Swyddog Priffyrdd ymateb. Eglurodd hi nad oedd yna argymhelliad wedi'i wneud cynt i wrthod y cais ond roedd



yr Awdurdod Priffyrdd wedi cynghori nad oedd digon o wybodaeth ar gael a gofynnwyd am arolwg cyflymdra. Nododd nad oedd arolygon o'r fath yn cael eu gwneud wrth y gyffordd ond yn hytrach gerllaw'r mynediad; am fod yr arolwg wedi dangos bod trafnidiaeth yn symud ar gyflymdra o dan 60 m.y.a (rhan fwyaf ar lai na 45 m.y.a a'r cyfartaledd oedd 32 m.y.a), roedd yn bosib lleihau'r ymlediad gwelededd, ac y byddai 50m i'r ddau gyfeiriad yn ddigonol. Roedd gofyniad i ledu'r ffordd fynedfa wedi'i ollwng ar sail crynswth isel o drafnidiaeth yn cyrraedd a gadael y safle; cynghorodd nad oedd y ffordd wedi bod yn brysur ar yr achlysuron roedd hi wedi ymweld.

Mewn ymateb i gwestiwn cynghorodd Ms Gibby bod ganddi wrthwynebiadau i'r cais nad oedden nhw'n ymwneud â materion priffyrdd ond oedd yn ymwneud â gwaredu coed ar hyd y nant oedd wedi lleihau rhanguddio'r safle o'r ffordd, a phryderon ynghylch draenio o'r safle oherwydd bod y llecyn parcio mor agos, y nant ac adeiladau eraill. Ychwanegodd bod y safle wedi'i amgylchynu gan fferm weithredol brysur 220 erw oedd hefyd yn cyflawni gwaith cytundeb yn defnyddio peiriannau, a bod hyn yn arwain at drafnidiaeth bobl gwyliau yn ceisio gadael yn cael eu dal y tu ôl i drafnidiaeth.

Yr ail siaradwr oedd Zac Addison, yr Asiant. Esboniodd bod y safle yn iard sgrap ar un adeg a oedd wedi'i glirio gan yr ymgeisydd i fod yn hafan brydferth ac ers ei glirio roedd wedi bod mewn defnydd fel safle 28 niwrnod. Mewn ateb i'r cwestiwn cynharach roedd yr ymgeisydd yn bwriadu defnyddio'r safle ar gyfer cartrefi modur yn unig, ac roedd yn fodlon i amodau gael eu gosod ynglŷn â hyn, ac i sicrhau na fyddai hyd y cerbydau yn fwy na 7m. Nododd yr Asiant bod asesiadau ecolegol rhagarweiniol wedi'u gwneud a bod y rhain wedi bod yn gadarnhaol, ac roedd ei gleient yn barod i wneud mwy nag oedd ei angen mewn gwirionedd o ran hyrwyddo bioamrywiaeth, gan gynnwys cwpanau gwenoliaid, bocsys gwenoliaid duon, plannu cloddiau a choed yn ogystal â phlanhigion ar gyfer peillio. Roedd arolygon priffyrdd wedi'u gwneud yn unol â'r gofyn a'r canlyniadau wedi'u llwyr drafod. Esboniodd Mr Addison bod ei gleient am i'r safle barhau yn hafan brydferth ac, o'r herwydd, dim ond wedi gofyn am 11 llain galed, un cae ar gyfer pebyll ar gyfer mwyafswm o 20 pabell a thri bugeildy. Doedd dim bwriad i ddefnyddio tarmac na choncrid ac fe fyddai'r lleiniau caled o waelod math 1 er mwyn caniatáu hidlo naturiol. Gofynnid am ganiatâd ar gyfer tri adeilad ôl-weithredol - bloc toiledau, bugeildy a'r sied storio a oedd yn hen adeilad maes awyr wedi'i doi ar gyfer storio ar y safle carafanau. Ychwanegodd fod ei gleient yn fodlon cynnal a chadw ymyl y ffordd i sicrhau ymlediad gwelededd a nododd bod yna ddarn gwastad ar ochr y cwrbyn a oedd yn llethri tuag at y clawdd soled y byddai'n bosib ei dorri.



Gofynnodd un Aelod gwestiwn ynghylch sŵn a'r pellter rhwng y gwersyll a'r eiddo nad oedd yn gysylltiedig ag ef. Cyngorodd y swyddog mai'r pellter oedd 101m ac nad oedd mater sŵn wedi'i ystyried yn y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol Ganiateir oedd wedi'i ddiwygio'n ddiweddar os oedd yr annedd agosaf dros 100m i ffwrdd. Nododd yr asiant bod yna gloddiau a choed a fyddai'n atal sŵn beth bynnag.

Yn dilyn cadarnhad gan yr Asiant gofynnodd y swyddog am ddiwygio amod 3 i gyfeirio at gartrefi cerbydau yn hytrach na charafanau teithio. Nododd hi hefyd y byddai angen caniatâd gan y Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (CCDC), ac am fod rhaid wrth gynllun draenio o dan Amod 4 byddai'n rhaid cau'r toiledau nes y byddai hyn wedi'i gymeradwyo.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau pellach ynghylch symud cerbydau a storio'r bugeildy y tu fas i'r tymor. Fe'u cyngorwyd gan y Swyddog Priffyrdd y disgwylid ar gyfartaledd pum symudiad cerbydau fesul awr p'un a oedd y rhain yn gartrefi cerbydau neu gerbydau, a doedd hynny ddim yn aruthrol. Cadarnhaodd yr Asiant y byddai'n bosib i'r bugeildy a'r decin cysylltiedig gael eu symud o'r safle neu eu symud i'r sied dros y gaeaf.

Roedd yr Aelodau yn fodlon gyda'r esboniadau ynghylch mynediad a gwaredu'r bugeildai yn ystod y gaeaf. Roedden nhw hefyd yn cymeradwyo'r ailddefnydd o safle tir llwyd, yr ymrwymiad i fwy o fioamrywiaeth gan nodi am fod y safle yn y mewndir byddai'n annog twristiaeth i ffwrdd o ardaloedd prysur yr arfordir. Y gobaith oedd, gan fod y Gwibiwr Pâl yn pasio gerllaw, byddai hyn yn annog gyrwyr cartrefi cerbydau i adael eu cerbydau ar y safle yn ystod y dydd. Er mwyn delio ag unrhyw bryderon ynghylch sŵn awgrymwyd ychwanegu amod lliniaru sŵn. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo gydag amodau ei roi gerbron gan y Cyngorydd Clements, ei eilio gan Mrs Hoss a'i gario yn y bleidlais.

Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo, gweithredu'r safle yn dymhorol, rheoli sŵn, draenio dŵr wyneb a dŵr brwnt, defnydd o'r sied, plannu ac ail-blannu, goleuo allanol, Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, mynediad ac ymlediad gwelededd.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.15 a 11.20am]

[Am iddo ddatgelu buddiant rhagfarnol gadawodd y Cyngorydd C Williams y cyfarfod yn y fan hon gan eistedd yn y galeri gyhoeddus nes ei fod wedi siarad ac yna gadael yr ystafell.]



- (b) Cyfeirnod: NP/26/0145/FUL
Cynnig: 1 sawna bach pren gwresogi â choed, a chaban llogi cysylltiedig
Lleoliad: Harbwr Saundersfoot, Llanusyllt

Adroddwyd bod y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor ar gais un o'r Aelodau. Roedd y safle wedi'i leoli yn Harbwr Saundersfoot, ar y llwybr cyhoeddus i'r cyfeiriad dwyreiniol o'r maes parcio. Oddi fewn i'r ardal roedd nifer o allfeydd bwyd a manwerthu gan gynnwys yr unedau ar Sgwâr y Cefnfor, bwth hufen ia a storfa Spar. Roedd y safle hefyd wedi'i leoli oddi fewn i Ardal Gadwraeth ddynodedig Llanusyllt a'r ardal Rheoli Newid Arfordirol, fel sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 y Parc Cenedlaethol (CDLI2).

Cynghorwyd y Pwyllgor bod newid defnydd o dir dros dro am ddwy flynedd i leoli sawna mudol wedi'i ganiatáu yn 2024. Roedd y cais presennol yn cynnig cadw'n barhaol 1 sawna bach pren gwresogi â choed, a chaban llogi cysylltiedig newydd (ôl-weithredol), y ddau wedi'u lleoli o fewn Harbwr Saundersfoot.

Roedd y swyddogion yn ystyried bod yr egwyddor o leoli'r sawna a'r swyddfa llogi o fewn lleoliad yn y Canol yn dderbyniol. Fodd bynnag, o ystyried gweithrediad y caniatâd dros dro, a derbyn yr estyniad pellach o'r cynnig cyfredol, ystyriwyd bod effaith gweledol y sawna a'r caban cysylltiedig nawr wedi cynyddu, ond y gellid ei leihau trwy leoli'r sawna ymhellach nôl yn y maes parcio. Byddai i hyn y fantais hefyd o beidio gorfod adleoli'r sawna yn ystod tywydd difrifol a phan fyddai yna berygl o lifogydd.

Ystyriwyd y byddai'r cais, yn ei ffurf bresennol ynghyd â lleoliad arfaethedig y sawna, yn arwain at effaith dirweddol a fyddai'n niweidiol i leoliad Ardal Gadwraeth Llanusyllt, yn arbennig wrth edrych arno o'r traeth a phan fyddid yn edrych tuag at y môr o'r promenâd. Roedd y sawna hefyd wedi'i leoli mewn man fyddai'n cyfyngu mynediad cyhoeddus ar hyd y llwybr promenad presennol, a ystyrid fel gweithred fyddai'n atal mynediad priodol rhag cael ei chyflawni, ac yn creu datblygiad nad oedd wedi'i ddylunio'n dda ar gyfer cerddwyr. Yn ychwanegol, ers caniatáu'r caniatâd dros dro, roedd Nodyn Cynghori Technegol 15 wedi'i ddiweddarau ac erbyn hyn roedd angen Asesiad Canlyniadau Llifogydd ar gyfer datblygiad yn y lleoliad hwn. Roedd absenoldeb Asesiad Canlyniadau Llifogydd priodol yn golygu nad oedd gwybodaeth digonol ar gael i gefnogi'r cais presennol. Yr argymhelliad felly oedd gwrthod.

Yn y cyfarfod adroddwyd bod deiseb wedi dod i law yn cefnogi'r datblygiad yn cynnwys 550 o lofnodion. Cafwyd cyflwyniad hwyr gan yr ymgeisydd hefyd ac roedd hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod ers



dechrau'r wythnos. Crynhodd y swyddogion y pwyntiau a wnaed oedd yn ymwneud â buddiannau economaidd yr uned i'r harbwr a nodwyd y gefnogaeth leol gref. Roedd yr ymgeisydd hefyd o'r farn bod lleoliad y sawna yn angenrheidiol i sicrhau ei lwyddiant, gan nodi iddo dderbyn 5,000 o archebion gan 8,000 o ddefnyddwyr yn ystod dwy flynedd ei fodolaeth. Anfonwyd ffotograffau hefyd yn dangos gwelyau blodau wedi'u codi, yr is-orsaf drydan a cherbydau yn y maes parcio yn darparu rhanguddio.

Nododd y swyddog tra bo mynediad i gerddwyr ar hyd y promenad wedi'i gadw, roedd wedi lleihau o ran lled y tu ôl i'r sawna. Roedd angen hefyd cymryd ystyriaeth o Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yr Awdurdod a oedd yn cynnwys ystyriaeth o'r rheiny oedd â nam golwg. Doedd y lleoliad felly ddim yn cael ei ystyried wedi'i ddylunio'n dda o ran hygyrchedd.

Holodd yr Aelodau ynghylch unedau eraill oedd wedi'u lleoli ar hyd yr harbwr ac fe'u cynghorwyd nad oedd angen caniatâd newid defnydd heblaw am ddefnydd nad oedd yn ychwanegol neu yn gysylltiedig â'r harbwr e.e. doedd dim angen caniatâd newid defnydd ar gyfer unedau'n trefnu teithiau mewn badau. Roedd caniatâd wedi'i roi i fan oedd yn gwerthu donyts. Nodwyd bod y caban oedd wedi'i leoli gerllaw'r swyddfa archebu ôl-weithredol yn cael ei symud y tu hwnt i'r tymor.

Holodd Aelod arall ynghylch y diffyg hyrwyddo bioamrywiaeth ac fe'i cynghorwyd nad oedd sylw wedi'i roi i'r mater hwn am mai'r argymhelliad oedd gwrthod, ond, fodd bynnag, fe ellid cyfeirio ato gydag amod pe bai'r Aelodau yn penderfynu cymeradwyo'r cais.

Holodd yr Aelodau'r Swyddog Cadwraeth Adeiladau, a oedd yn bresennol, i esbonio beth oedd wedi newid ers i'r caniatâd dros dro gael ei roi. Cynghorodd bod y Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i ddiogelu Cymeriad a Golwg yr Ardal Gadwraeth, ac roedd yr ardal wedi'i disgrifio yng Nghyfarwyddyd Ychwanegol yr Awdurdod fel mangre agored angenrheidiol gyda golygfeydd allweddol tuag at y môr wrth gerdded ar hyd y promenad. Mynegodd hefyd bryder ynghylch gosod cynsail - nid yn unig mewn perthynas ag unedau ychwanegol ger y sawna ond o ran mannau yn wynebu'r môr Ardaloedd Cadwraeth eraill. Ystyriai bod yna bosibilrwydd o safle arall oddi fewn i'r harbwr. Ychwanegodd y swyddogion hefyd bod caniatâd dros dro wedi'i roi i weld a oedd y defnydd yn y lleoliad hwnnw yn briodol, ac erbyn hyn ystyriwyd nad oedd yn briodol.

Y siaradwr cyntaf oedd, Kerry Evans, a esboniodd ers derbyn y caniatâd dros dro ddwy flynedd nôl, roedd y sawna wedi datblygu yn fusnes lleol llwyddiannus a oedd yn rhan o wead y pentref. Ers agor roedd miloedd o



bobl wedi defnyddio'r sawna – dros 5,000 wedi archebu a oedd yn golygu tua 8,000 o bobl – ac felly roedd yn amlwg yn cael ei werthfawrogi. Hefyd roedd iddo ei werth fel rhan o'r gymuned gan fod y busnes yn cyflwyno talebau i achlysuron elusennol ac yn codi arian i achosion da ledled Sir Benfro.

Esboniodd Ms Evans bod safle presennol y sawna yn greiddiol i'w lwyddiant gan fod ei leoliad yn erbyn y rheiliau yn darparu preifatrwydd, urddas a diogelwch i gwsmeriaid tra ar yr un pryd yn caniatáu golygfeydd heb amhariad ar draws y bae, tra bod yr ardal newid integredig yn galluogi pobl i newid yn gyffyrddus ac yn breifat. O ganlyniad i gais busnes i Lywodraeth Cymru cafwyd cyllid rhannol ar gyfer cawod dŵr croyw ger y llithrfa a olygai fod pobl yn medru symud yn rhwydd rhwng y môr, y gawod a'r sawna. Roedd hi o'r farn bod eistedd yn y sawna yn gwylio'r tonnau'n rowlio yn brofiad na ellid ei anghofio ac na ellid ei ail-greu yn unman arall. Nododd bod y gefnogaeth gan bobl leol wedi bod yn rhyfeddol a bod nifer o fusnesau wedi cefnogi'r ddeiseb. Roedd y busnes yn ymwneud â chreu pobl iachach, cymunedau cryfach ac yn rheswm arall dros ymweld â Llanusyllt, ac am ei fod yn atyniad gydol y flwyddyn, roedd y sawna yn cyfrannu i ymestyn y tymor twristiaeth y tu hwnt i fisoedd traddodiadol yr haf. Mae defnyddwyr wedyn yn gwario eu harian yn y bwyta, siopau a lletyau ac felly yn cyfrannu i economi ehangach y pentref. Nododd bod sawnas awyr agored yn un o'r gweithgareddau awyr agored oedd ar gynnydd o ran gweithgareddau iechyd a lles yn y DU ac roedd ei busnes wedi'i gydnabod gan The Times fel un o'r 20 prif sawnas yn y DU ac wedi ennill gwobr Sawna y Flwyddyn 2026/2027. Roedd yr holl gyhoeddusrwydd yn gymorth i ddangos pob dim roedd gan y pentref i'w gynnig.

Wrth droi at faterion ymarferol dywedodd Ms Evans bod y sawna wedi gweithredu'n ddiogel ers dwy flynedd a bod y cyhoedd wedi parhau i symud yn rhwydd o amgylch y safle. Yn ystod tywydd garw ac ambell lanw uchel roedd y sawna wedi'i symud ac ni fu unrhyw helynt i awgrymu bod gwneud hynny'n aneffeithiol. Nid oedd y busnes yn gweithredu pan nad oedd yr amodau yn addas. Roedd diogelwch o'r pwys mwyaf, ac roedd pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf, roedd offer brys ar y safle, gwnaed sylw o ddulliau gweithredu a gwnaed asesiadau risg.

Yn olaf, esboniodd ei bod wedi syrthio mewn cariad â Llanusyllt ac wedi penderfynu symud yno am ei fod yn le mor arbennig; roedd hi nawr am roi rhywbeth nôl trwy greu busnes a fyddai'n gwella bywydau pobl, gan adlewyrchu'r pwysigrwydd cynyddol mewn iechyd, lles a thwristiaeth gynaliadwy. Gofynnodd i'r Pwyllgor i edrych y tu hwnt i'r cynlluniau a'r lluniadau ac i weld yr hyn roedd y busnes wedi'i gyflawni mewn dwy flynedd o ganiatâd dros dro - rhan allweddol o gymuned Llanusyllt, yn



atyniad oedd tynnu pobl i'r pentref gydol y flwyddyn, yn cefnogi busnesau lleol, yn cefnogi iechyd a lles ac yn gweithredu'n ddiogel a chyfrifol.

Tra nad yn amau buddiannau iechyd, lles ac economaidd y busnes gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch y lleoliad. Cadarnhaodd bod angen y swyddfa llogi i ddarparu cysgod i'r staff pan nad oedd y tywydd yn braf ac i groesawu pobl. Ystyriwyd mannau eraill yn yr harbwr ond doedd unman yn addas, yn arbennig o ran yr angen am breifatrwydd, ac roedd y rheiliau o flaen y sawna yn darparu hynny. Roedd hi'n ystyried y byddai symud i leoliad arall neu ddefnyddio gwydr preifatrwydd yn golygu newid yr hyn oedd ganddi i'w gynnig, ac na fyddai'r busnes yn llwyddiannus. Cadarnhaodd hefyd nad oedd y sawna yn gweithredu pan fyddai wedi'i symud ar adeg o dywydd drwg. Tanlinellodd mai'r lled ar gyfer pasio yn y man culaf y tu ôl i'r sawna oedd 175cm a bod hynny yn cael ei ystyried yn ddigonol (y lleiafswm oedd 120cm, tra bo 180cm yn ddigonol i ddwy gadair olwyn fynd heibio). Nododd bod llefydd eraill o amgylch y pentref lle'r oedd hygyrchedd yn fwy cyfyng. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch gosod adeiledd arall yn y dyfodol dywedodd y swyddog y byddai adeiladau tebyg yn cael eu caniatáu cyhyd eu bod yn bodloni'r mesuriadau a'r paramedrau fyddai wedi'u gosod allan mewn unrhyw ganiatâd. Yn olaf gofynnodd un Aelod p'un a fyddai'r busnes yn barod i ystyried talu i ledu'r promenad fel mesur unioni ond, fodd bynnag, cynghorodd yr ymgeisydd na fyddai hyn yn ariannol ddichonadwy ac fe fyddai, beth bynnag, yn arwain at golli bioamrywiaeth a rhanguddio am fod yna wely blodau wedi'i godi y tu ôl i'r adeiledd.

Yr ail siaradwr oedd Mr Phil Baker, yn siarad o blaid y cais. Dywedodd iddo ddeall i gychwyn nad oedd dim wedi newid ers rhoi'r caniatâd dros dro ond, wedyn, deallodd bod y sawna yn ffurfio rhan o ailddatblygiad yr harbwr, oedd wedi derbyn gwobr gan yr RTPI am adnewyddiad, ac roedd hynny wedi cydnabod swyddogaeth cynllunio wrth greu cyrchfan ar gyfer y flwyddyn gyfan, lle'r oedd cyfleusterau masnachol, cymunedol a thwristiaeth yn cefnogi busnesau, yn gwella mynediad cyhoeddus ac yn annog adnewyddu, yn cael ei glodfori fel patrwm ar gyfer gwynnch economaidd arfordirol mewn aneddiadau llai, ac yn enghraifft dda o adnewyddu mewn lleoliad penodol. Roedd y beirniaid wedi nodi bod y prosiect yn hyrwyddo hygyrchedd, cynladwyedd a mentrau lleol ond, fodd bynnag, roedd yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw i sicrhau y gwnâi menter lwyddiannus fechan gadw ei gallu i gynnig gwasanaeth - rhoi cyfle i ymwelwyr a thrigolion lleol gymryd sawna mewn man lle'r oedd golygfeydd nad oedd eu tebyg ar draws y bae.

Nododd Mr Baker bod y lleoliad wedi'i ddewis yn ofalus a'i fod yn alinio â llinell adeiladu'r adeilad agosaf i'r de, ac yn rhanguddio eiddo ar hyd y Strand. Dim ond 4.2m o hyd oedd yr adeiledd a phe bai unrhyw un am



weld holl olygfa'r bae dim ond symud 2.1m i'r naill gyfeiriad neu'r llall oedd ei angen. Doedd e ddim yn credu bod y sawna ar ganol y llwybr troed ond yn hytrach ar bromenâd ger y môr; roedd y man culaf lle'r oedd y pellter yn 1.8m o led, wedi'i achosi gan golofn camera diogelwch. Nododd bod y ramp fynediad agosaf i'r promenad hefyd yn 1.8m o led.

Gan droi at adroddiad y swyddog, nododd bod y mwyafrif y rhai a ymgynghorwyd â nhw, ac eithrio'r Swyddog Cadwraeth Adeiladu, heb gynnig yr un gwrthwynebiad, a bod un o'r llythyrau yn cynnwys deiseb o 558 o enwau. Roedd y busnes wedi ei sefydlu ei hun fel cefnogwr elusennau ac achosion da, a byddai unrhyw fygythiad i'w hyfywedd a'i gynnig unigryw yn cael effaith andwyol. Awgrymodd y byddai lles a buddiant cymunedol, ynghyd â chynnaladwyedd busnes bychan yn gorbwyso'n llwyr y rhesymau dros wrthod ac ar ran y cefnogwyr gofynnodd i'r Pwyllgor gefnogi'r cais.

Y siaradwr olaf oedd y Cynghorydd Chris Williams, yn siarad nid fel Aelod o'r Pwyllgor ond fel Cynghorydd Sir De Llanusyllt, yn cynrychioli safbwynt y trigolion, busnesau a chyrff cymunedol. Ystyriai bod y safbwyntiau hynny wedi'u hadlewyrchu yn y lefel sylweddol o gefnogaeth gyhoeddus roddwyd i'r cais, yn cynnwys deiseb o 558 o unigolion, a oedd yn dangos fod y busnes yn cael ei weld fel ychwanegiad gwerthfawr i'r gymuned.

Nododd y Cynghorydd Williams pan roddwyd caniatâd dros dro roedd tri lleoliad posib wedi'u hawgrymu i ganiatáu adleoli'r adeiledd mewn tywydd garw, ar adeg o lanw uchel neu stormydd. Un o'r rhesymau dros wrthod y cais cyfredol oedd gwybodaeth annigonol o ran yr asesiad canlyniadau llifogydd ond, fodd bynnag, gofynnodd i'r Aelodau ystyried tystiolaeth y ddwy flynedd ddiwethaf oedd yn dangos bod y gweithredwyr yn deall sensitifrwydd y safle ac roedden nhw wedi dangos rheolaeth gyfrifol, wrth i'r sawna gael ei symud o'r safle ar adegau o dywydd garw eithriadol heb unrhyw helynt. Credai y dylai'r hanes gweithredu ymarferol hwn gario cryn bwysau wrth asesu p'un a oedd yn bosib rheoli peryglon mewn modd priodol. Wrth droi at hygyrchedd, dywedodd ei fod yn deall pa mor brysur y mae'r promenad ar adegau brig. Nododd bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud i wella hygyrchedd ledled Llanusyllt i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, sgwteri mudol a choetsys bach, wrth i'r promenad gael ei ailwynebu, mannau croesi wedi'u gwella a dolenni teithio gweithredol yn cyfrannu at wneud y pentref yn fwy diogel a hygyrch i bawb. Ychwanegodd nad oedd wedi derbyn yr un gŵyn wrth breswylwyr na busnesau lleol ynghylch rhwystro na phroblemau hygyrchedd wedi'u hachosi gan y sawna.

O ystyried yr effaith weledol roedd y Cynghorydd Williams o'r farn bod y lleoliad presennol yn gweithio'n dda gan fod yr adeiledd wedi'i rhanguddio wrth edrych o'r Stryd Fawr. Ystyriai y byddai lleoliad mwy canolog yn y



maes parcio sydd ar godiad yn ei wneud yn fwy gweladwy oddi fewn i leoliad yr harbwr. Roedd ei leoliad presennol hefyd yn osgoi rhwystro'r golygfeydd roedd pobl yn eu mwynhau wrth eistedd yn eu cerbydau yn edrych ar draws y bae. Yn olaf siaradodd am fuddiannau ehangach y busnes i'r gymuned wrth i nifer o gyrff a phreswylwyr fynegi eu cefnogaeth gan gynnwys y Cyngor Cymuned. Roedd y sawna wedi croesawu oddeutu 8,000 o ddefnyddwyr unigol, wedi denu ymwelwyr i'r pentref gydol y flwyddyn gan ymestyn gweithgaredd ymhell y tu hwnt i'r tymor ymwelwyr traddodiadol. Nododd bod y busnes wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol, wedi cael sylw mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a derbyn gwobrau'r wasg ar draws y byd ac wedi denu ymwelwyr o bellafoedd na fydden nhw fel arall wedi ymweld â Llanusyllt. Roedd y gawod traeth a osodwyd yn ddiweddar wedi'i defnyddio'n helaeth. Roedd y busnes hefyd yn cefnogi'r economi lleol, wrth i ymwelwyr sawna ddefnyddio busnesau lleol ac yn annog ôl troed gydol y flwyddyn gan ategu'r enw da cynyddol fel cyrchfan oedd yn hybu iechyd, lles a hamddena awyr agored. Fel Cynghorydd Sir etholedig nododd bod yr adborth i'r sawna wedi bod yn hynod o gadarnhaol. Roedd yn cydnabod y dylai penderfyniadau cynllunio gael eu seilio ar rinweddau cynllunio'r cais ond credai bod tystiolaeth y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dangos bod y sawna wedi gweithredu yn gyfrifol a heb amlygu'r pryderon a ragwelwyd yn wreiddiol, gan ddatblygu yn ychwanegiad gwerthfawr i'r harbwr a chymuned y pentref. Gofynnodd i'r Pwyllgor gefnogi'r cais.

Gadawodd y Cynghorydd C Williams yr adeilad wedyn.

Tra cydnabyddid buddiannau'r busnes i'r gymuned a'r economi roedd y mwyafrif o'r Aelodau yn ystyried bod y sawna yn ei leoliad presennol yn rhwystr i weld yr olygfa ac yn effeithio'n andwyol ar bobl yn crynhoi ynghyd ac yn symud, ac yn rhoi defnyddwyr cadeiriau olwyn yn arbennig o dan anfantais. Mynegwyd pryder y gallai busnesau ardderchog eraill hefyd gael eu gosod ar y promenad gan greu cynsail a chyfyngu ar fynediad hyd yn oed ymhellach. Roedd eraill o'r farn bod yr adeiledd yn ychwanegu at yr annibendod gweledol a bod y dyluniad yn amhriodol yn y lleoliad gan dynnu oddi ar hanfod hanesyddol Llanusyllt yn hanesyddol ac yn esthetig. Roedd yna hefyd bryder ynghylch yr olygfa o'r traeth ac ystyriwyd mewn nifer o ffyrdd bod y swyddfa archebu wedi'i gosod mewn man gwell ymhlith adeiladau eraill na'r sawna ei hun. Cafodd yr argymhelliad i wrthod ei gynnig gan y Cynghorydd Clements, a'i eilio gan y Cynghorydd M Williams. Gofynnwyd pe bae'r cais yn cael ei wrthod y byddai yna drafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r ymgeisydd i ganfod lleoliad mwy addas. Cafodd yr argymhelliad ei gario yn y bleidlais.



Penderfyniad: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:

- 1. Ystyrir bod y datblygiad wedi'i osod ar safle a fydd yn effeithio'n andwyol ar gymeriad a gosodiad Ardal Gadwraeth Llanusyllt am y byddai'r adeiledd sawna arfaethedig yn tynnu oddi ar yr ardal agored angenrheidiol ddiffiniedig oddi fewn i Ardal Gadwraeth Llanusyllt a'i osodiad dirweddol arbennig wrth edrych arno o fannau allweddol oddi fewn i ardal y promenad a golygfeydd amlwg i mewn i'r ardal gadwraeth o'r môr ac o'r herwydd yn groes i Bolisiâu 04 (Canolfan Leol Llanusyllt), 08 (Nodweddion Arbennig), 14 (Cadwraeth a Hyrwyddiant Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), ac 18 (Porthladdoedd Porthgain, Llanusyllt, Solfach a Dinbych-y-pysgod), 29 (Dylunio Cynaliadwy), a 30 (Mwynder) Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2.**
- 2. Nid yw lleoliad y sawna arfaethedig ar y promenad, sydd yn cyfyngu'r lled pasio yn y lleoliad, yn cael ei ystyried yn arwain at ddatblygiad wedi'i ddylunio'n dda ar gyfer mynediad i gerddwyr ac o'r herwydd yn groes i feini prawf c) o Bolisi 59 a, maen prawf a) o Bolisi 60 Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2.**
- 3. Mae'r cais wedi'i gefnogi gan Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLI) nad yw'n delio a'r wybodaeth sy'n ofynnol sydd wedi'i osod allan yn Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 15 Llywodraeth Cymru, ac o'r herwydd, ystyria'r swyddogion bod yna brinder gwybodaeth i sicrhau y byddai'r ACLI fyddid yn ei gyflwyno yn dangos y peryglon, ac y byddai canlyniadau llifogydd yn cael eu rheoli ac yn bodloni'r meini prawf sydd wedi'u gosod allan oddi fewn i TAN 15 (Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol).**

- (c) Cyfeirnod: NP/26/0177/FUL
Cynnig: Creu llawr caled athraidd wrth y fynedfa i Penlan
Lleoliad: Mynedfa i goedwig Penlan, Cwm Gwaun

Adroddwyd bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor am mai'r ymgeisydd oedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Roedd y cais yn chwennych caniatâd cynllunio i osod llawr caled athraidd wrth fynedfa bresennol coedwig Penlan, Cwm Gwaun. Byddai'r llawr caled arfaethedig yn darparu man gweithredu i hwyluso rheolaeth tymor hir y safle cadwraeth 70 hectar ehangach, cefnogi adfywio coed cynhenid, adfer rhostir, rheoli pori a hyrwyddo bioamrywiaeth ehangach.

Roedd y cynnig wedi'i leoli yn ofalus gerllaw'r mynediad presennol, roedd yn cynnwys draenio cynaliadwy ac wedi'i gefnogi gan fesurau lliniaru ecolegol. Ni ystyrid y byddai'n creu effeithiau andwyol ar gymeriad y



dirwedd, bioamrywiaeth, mwynder preswyllo, diogelwch priffordd, hawliau tramwy cyhoeddus na pherygl llifogydd. Yn amodol ar yr amodau argymhellwyd ystyrid bod y datblygiad yn unol â pholisïau perthnasol Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a Chynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 ac felly'r argymhelliad oedd cymeradwyo.

Nododd yr Aelodau oedd yn gyfarwydd â'r safle ei fod ers ei glirio o goedwigaeth ungnwd yn y 1990au wedi ail-greu ei hun yn ardal gadwraeth fioamrywiol. Roedden nhw o'r farn y byddai ychwanegu llawr caled yn cynorthwyo'r gwaith o reoli'r safle. Cynigiwyd yr argymhelliad o gymeradwyaeth gan Dr Havard, a'i eilio gan Ms Gwenllïan, ac fe'i carwyd yn y bleidlais.

Penderfyniad: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar osod amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau oedd wedi'u cymeradwyo, plannu a goleuo.

- (d) Cyfeirnod: NP/26/0242/FUL
Cynnig: Gosod paneli ffotofoltäidd ar y to dros yr ardal seddi allanol
Lleoliad: The Shed Tea Room, Porthgain, Hwlffordd

Adroddwyd bod y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â'r cynllun dirprwyo am fod yr adeilad yn eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Roedd y The Shed Tea Room yn ffurfio rhan o Tŷ Mawr, hen sied beiriannau fawr wedi'i chodi o garreg a'i rhestru yn Radd II. Defnyddiwyd The Shed at bwrpas manwerthu er 1999, ac fel ystafell de a bwyty er 2001. Roedd yr adeilad wedi'i leoli mewn man amlwg oddi fewn i Ardal Gadwraeth Porthgain, ac yn gorwedd oddi fewn i ffin yr hyn a nodwyd fel canol Porthgain, a oedd wedi'i ddynodi yn Ganolfan Wledig yn y Cynllun Datblygu Lleol 2.

Gofynnid am ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig i osod paneli ffotofoltäidd ar y to dros yr ardal seddi allanol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith fyddai angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer oddi fewn i'r cais cynllunio amgaeedig (NP/26/0243) (Cofnod 6(e) cyfeir). Nododd y swyddog bod Paneli PV yn cael eu hystyried yn dderbyniol o ran cyfarwyddyd cenedlaethol Cadw lle fyddai effaith ar leoliad a chymeriad arbennig adeiladau rhestredig yn cael ei ystyried yn dderbyniol ac yn y cyswllt hwn, roedd yr ychwanegiad paneli ar estyniad modern, yn hytrach nag ar do hanesyddol amlwg y prif do ei hun.

Ni chafwyd sylwadau negyddol gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ac ni chafwyd sylwadau trydydd parti. Roedd y cynllun arfaethedig yn cael ei



ystyried yn briodol o ran maint, graddfa a manylion ac yn gydnaws â chymeriad yr adeilad rhestredig a'i osodiad o ran dyluniad a ffurf. Byddai'n arwain at fesurau effeithlonrwydd ynni yn cael eu cyflwyno i gefnogi cyfleuster oedd eisoes ar gael oddi fewn i Ganolfan Wledig. Roedd y cynnig felly yn cydymffurfio â pholisïau perthnasol oddi fewn i'r Cynlluniau Datblygu Lleol a Chenedlaethol ac, o'r herwydd, roedd yn bosib cefnogi'r cais gydag amodau.

Gofynnodd un Aelod p'un a fyddai cyflwyno paneli PV yn effeithio ar lefelau goleuo oddi fewn i'r adeiledd ac atebodd y swyddog trwy ddweud nad oedd unrhyw oleuo ychwanegol wedi'i chwennych fel rhan o'r cais. Cafodd yr argymhelliad i gymeradwyo ei gynnig gan y Cynghorydd Clements, ei eilio gan Mrs Hoss ac fe'i carwyd yn y bleidlais.

Penderfyniad: Cymeradwyo'r cynllun gydag amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad, yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cymeradwyo a phlannu a hau.

- (e) Cyfeirnod: NP/26/0243/LBA
Cynnig: Gosod paneli ffotofoltäidd ar y to dros yr ardal seddi allanol
Lleoliad: The Shed Tea Room, Porthgain, Hwlfordd

Adroddwyd bod y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn unol â'r cynllun o ddirprwyo am fod yr adeilad yn eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd y cais oddi fewn i'r Cyfarwyddyd Dirprwyo Adeilad Rhestredig roddwyd i'r Awdurdod hwn gan Lywodraeth Cymru ar Orffennaf 25ain 2012 (wedi'i ddiwygio).

Roedd y The Shed Tea Room yn ffurfio rhan o Tŷ Mawr, hen sied beiriannau fawr wedi'i chodi o garreg a'i rhestru yn Radd II. Defnyddiwyd The Shed at bwrpas manwerthu er 1999, ac fel ystafell de a bwyty er 2001. Roedd yr adeilad wedi'i leoli mewn man amlwg oddi fewn i Ardal Gadwraeth Porthgain.

Gofynnid am ganiatâd adeilad rhestredig i osod paneli ffotofoltäidd ar y to dros y seddi allanol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith fyddai angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer oddi fewn i'r cais cynllunio amgaeedig (NP/26/0242/FUL) (Cofnod 6(d) cyfeir). Ni chafwyd sylwadau negyddol gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ac ni chafwyd sylwadau trydydd parti.

Roedd y cynllun arfaethedig yn cael ei ystyried yn briodol o ran maint, graddfa a manylion ac yn gydnaws â chymeriad yr adeilad rhestredig a'i osodiad o ran dyluniad a ffurf. Ystyriwyd hefyd ei fod yn cydymffurfio â gofynion TAN 24, ac Egwyddorion Cadwraeth Cadw. O'r herwydd, roedd yn bosib cefnogi'r cais, gydag amodau, a gwnaed argymhelliad i



gymeradwyo hynny. Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Clements, ei eilio gan Ms Gwenllïan ac fe'i cariwyd yn y bleidlais.

Penderfyniad: Caniatáu Caniatâd Adeilad Rhestredig yn amodol ar amodau yn ymwneud ag amseriad y datblygiad ac yn unol â chynlluniau a dogfennau wedi'u cyflwyno.

7. Apeliadau

Adroddodd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu am naw o apeliadau (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) sydd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru gan fanylu ynghylch ble mae pob un o'r naw wedi cyrraedd o ran y broses apêl.

Nodwyd nad oedd yr un penderfyniad apêl wedi dod i law ers y cyfarfod cynt.

Nodwyd.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 2 Medi 2026 heb eu diwygio.
--